**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:PO/KS/513/2025

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

21 Hydref 2025

Annwyl Andrew,

**Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd**

Diolch am eich llythyr sy'n trafod y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen i gyflawni'r amcanion a ragwelir ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GCRE i gyflawni ei rhaglen. Mae'n gweithio gyda bwrdd y cyfarwyddwyr a thîm gweithredol GCRE Ltd i gefnogi eu hymdrechion i sicrhau buddsoddiad preifat yn y cwmni. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gallu i GCRE ymchwilio i ba raddau y gallai fod angen lleihau risg y prosiect, a hynny drwy gyllid cyhoeddus ychwanegol neu gynnig gwarant er mwyn sicrhau'r cyllid cyfalaf preifat sy'n angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Wrth gwrs, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd nodi cwmpas unrhyw ymyrraeth ychwanegol nac i ba raddau y bydd ar gael, a bydd yr ymyrraeth hon yn amodol ar fwy o ddiwydrwydd dyladwy a phrofi'r farchnad. Fodd bynnag, bydd swyddogion ar gael i gefnogi'r trafodaethau hynny ar yr adeg briodol.

Yn ogystal â'r prosiect craidd i brofi'r rheilffordd, mae GCRE wedi cael adnoddau i ymestyn ei gylch gwaith i weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â rheilffyrdd i sefydlu a allai buddsoddiad cyflenwol ar y safle gynhyrchu derbyniadau neu incwm i gefnogi'r prosiect craidd. Er mwyn hwyluso hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a minnau wedi ymrwymo cyllid ychwanegol i GCRE Ltd yn ddiweddar ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar y pwynt olaf, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Gronfa Gyfoeth Wladol i drin a thrafod yr holl opsiynau i dalu cost gyfalaf GCRE. Rwyf yn ddiolchgar fy mod wedi cael copi o'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y mater hwn.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales